# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024

## Adroddiad Cam Mis Chwefror

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
21/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/03/2024



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83577-798-5

© Hawlfraint y Goron 2024

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: Adroddiad Ton Chwefror

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-83577-798-5
12 Mawrth
© Hawlfraint y Goron 2024

OGL

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**


1. Prif Ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a Methodoleg ..... 4
3. Perfformiad 2023 ..... 5
4. Archebion a Disgwyliadau ar gyfer 2024 ..... 8
5. Defnydd o'r Gymraeg gan Staff ..... 21

## 1. Prif Ganfyddiadau

**Roedd 2023 yn flwyddyn eithaf heriol i'r diwydiant**

1.1 Cafodd un o bob pedwar (25%) o fusnesau fwy o ymwelwyr yn 2023 o'i gymharu â 2022, a chafodd 42% yr un lefel. Serch hynny, cafodd traean ohonynt (33%) lai. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau baromedr haf 2023, a oedd hefyd yn dangos bod y diwydiant i lawr yn gyffredinol o'i gymharu â 2022.

1.2 Perfformiodd atyniadau yn dda yn 2023, gyda 42% yn cynyddu eu niferoedd ymwelwyr a gyda thua traean pellach (34%) yn cyflawni'r un lefel. Ar ochr arall y raddfa, y sector hunanddarpar a brofodd y trafferthion mwyaf, gyda 19% yn cynyddu lefelau ymwelwyr ond 42% yn adrodd ar lefelau is.

**Rhai gwahaniaethau yn ôl rhanbarth**

1.3 Derbyniodd Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru tua'r un lefel o ymwelwyr yn 2023 o'i chymharu â 2022, ond ni phrofodd Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yr un sefydlogrwydd. Yn Ne-orllewin Cymru, roedd 23% o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr, ond 36% wedi cael llai. Yng Nghanolbarth Cymru, cafodd 20% o fusnesau mwy o ymwelwyr, a 37% wedi cael llai. Y gyfran uwch o fusnesau hunanddarpar yn sampl Canolbarth a De-orllewin Cymru er mwyn adlewyrchu'r boblogaeth fusnes yw'r prif reswm dros wahaniaethau rhanbarthol.

**Lefelau defnydd y gaeaf**

1.4 Roedd y lefelau defnydd cyfartalog mewn perthynas â chapasiti ar gael ymhlith y busnesau â gwasanaeth yn 48% ym mis Tachwedd, 49% ym mis Rhagfyr a 37% ym mis Ionawr. Roedd y lefelau defnydd cyfartalog ymhlith busnesau hunanddarpar yn 38% ym mis Tachwedd, 39% ym mis Rhagfyr a 28% ym mis Ionawr.

**Disgwyl i lefelau ymwelwyr cyfredol barhau**

1.5 Disgwylir i lefelau ymwelwyr o Gymru, y DU y tu hwnt i Gymru a thramor fod yr un peth yn 2024 o'i gymharu â 2023.

**Ychydig o resymau i fod yn gadarnhaol**

1.6 Y tri ateb digymell uchaf i'r cwestiwn, '*A oes unrhyw resymau penodol i fod yn gadarnhaol am fusnes eleni?'* yw 'lefel uchel o gwsmeriaid drachefn' (18%), 'marchnata ein hunain' (15%) a 'gwella cynnyrch / darpariaeth' (12%). Serch hynny, yr ateb amlaf yw *'nid oes unrhyw beth i fod yn gadarnhaol yn ei gylch'* (32%).

### Costau uchel a pholisïau Llywodraeth Cymru yn dominyddu pryderon

1.7 Mae 'Costau gweithredu uchel' (32% yn ddigymell), a'r mater macro-economaidd cysylltiedig 'pobl â diffyg incwm gwario' (22%) yn bryderon allweddol ymhlith busnesau eleni. 'Polisïau Llywodraeth Cymru' (30%) yw'r pryder allweddol arall.

1.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd fwy nac un pryder pa un fyddai'n effeithio ar eu busnes fwyaf. O'i symleiddio i un, 'polisïau Llywodraeth Cymru' yw'r un pryder mwyaf ymhlith gweithredwyr hunanddarpar, a chostau gweithredu uwch yw'r pryder mwyaf ym mhob sector arall.

### Defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith

1.9 Mae gan ddau ym mhob pum busnes (40%) o leiaf un person yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y gwaith. Mae'r gyfran hon yn llawer uwch yng Ngogledd Cymru (60%) a Chanolbarth Cymru (40%) nac yn Ne-orllewin Cymru (26%) a De-ddwyrain Cymru (21%).

### Hyder i redeg yn broffidiol

1.10 Roedd 14% o weithredwyr yn 'hyderus iawn' am redeg y busnes yn broffidiol eleni a 50% yn 'weddol hyderus'.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Edrycha'r don hon ar berfformiad 2023, a lefelau archebu a disgwyliadau ar gyfer 2024. Mae testunau ad-hoc y tro hwn yn cynnwys mynd i'r afael â materion o bryder ar berfformiad busnes, a defnydd o'r Gymraeg gan staff.

### Sut y cynhaliwyd yr Arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 94 | 46 | 56 | 45 | **241** |
| Llety hunanddarpar | 75 | 65 | 86 | 43 | **269** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 55 | 26 | 14 | 15 | **110** |
| Hostelau | 6 | 6 | 4 | 4 | **20** |
| Atyniadau | 24 | 22 | 29 | 29 | **104** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 17 | 10 | 8 | 6 | **41** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 27 | 28 | 30 | 30 | **115** |
| **Cyfanswm** | **298** | **203** | **227** | **172** | **900** |

2.3 Mae 64% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau heb eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 29 Ionawr a 9 Chwefror.

## 3. Perfformiad 2023

### Perfformiad 2023 yn ôl sector




*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

Sylfaen: 828

### Edrych yn ôl ar flwyddyn heriol

3.1 Perfformiodd atyniadau yn dda yn 2023, ond cafodd y rhan fwyaf o sectorau eraill hi'n anodd cynyddu ar lefelau cwsmeriaid o'i chymharu â 2022. Y sector hunanddarpar a brofodd y flwyddyn anoddaf.

3.2 Mae'r canfyddiadau hyn yn adleisio baromedr haf 2023, a ddangosodd mai atyniadau oedd yr unig sector i gynyddu eu lefelau ymwelwyr ac roedd yr haf yn arbennig o anodd ar gyfer y sector hunanddarpar.

*"I lawr 4% ar y flwyddyn flaenorol... aeth mwy o bobl dramor y llynedd o'i chymharu â 2022"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Mae ein gwerthiannau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae Cymru yn dod yn gyrchfan ddiddorol i olffwyr a digwyddiadau golffio."*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain


*"Dyma'r gwaethaf y mae hi wedi bod yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

3.3 Mae rhai gweithredwyr wedi dweud bod y tywydd yn ffactor sylweddol, oherwydd roedd hi'n lawiog yn rhan gyntaf tymor brig yr haf. Adroddodd baromedr twristiaeth haf yn 2023 hefyd bod y tywydd yn rheswm allweddol dros lefelau siomedig ymhlith ymwelwyr.

*"Gallwn ond obeithio am dywydd gwell eleni. Roedd y llynedd yn llanast o ran y tywydd."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*"Y rhwystr fwyaf y llynedd oedd y tywydd. Ni allaf fforddio blwyddyn arall o law!"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

## Perfformiad 2023 yn ôl rhanbarth




*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*

### Gwelwyd rhai gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

3.4 Derbyniodd Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru tua'r un lefel o ymwelwyr yn 2023 o'i chymharu â 2022, ond ni phrofodd Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yr un sefydlogrwydd. Y gyfran uwch o fusnesau hunanddarpar yn sampl Canolbarth a De-orllewin Cymru er mwyn adlewyrchu'r boblogaeth fusnes yw'r prif reswm dros wahaniaethau rhanbarthol.

## Lefelau defnydd




*Gofynnwyd C2 i weithredwyr llety. Mae atebion 'ddim yn gwybod' ac 'ar gau drwy'r mis' wedi'u heithrio. Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl mis oherwydd gwahaniaethau yn nifer y busnesau sy'n cymryd archebion. Ni ddangosir y sector carafanau a gwersylla oherwydd maint sylfaen isel ym misoedd y gaeaf.*

### Y Flwyddyn Newydd yw'r trobwynt ar gyfer defnydd y gaeaf

3.5 Amrywiodd gyfran y busnesau â gwasanaeth a oedd ar agor yn ystod misoedd y gaeaf rhwng 75% a 85%, wrth i gyfran y busnesau hunanddarpar a oedd yn parhau ar agor amrywio rhwng 88% a 96%.


3.6 Gwelodd y rheini a barhaodd ar agor lefelau defnydd sylweddol uwch yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig o'i gymharu â'r Flwyddyn Newydd.

*"Mae ein lefelau defnydd yn ôl i'r niferoedd cyn-Covid"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*“Rydym bob amser yn gwneud cynnig y tu allan i'r tymor ym mis Tachwedd. Dyna pam ein bod hi'n brysur bryd hynny.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

# 4. Archebion a Disgwyliadau ar gyfer 2024

## Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr llety)




*Mae'r defnydd wedi'i archebu cyfartalog ar gyfer pob mis ymhlith busnesau sy'n cymryd archebion am y mis hwnnw. Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl mis oherwydd gwahaniaethau yn nifer y busnesau sy'n cymryd archebion. Mae'r maint samplu ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla ym mis Chwefror yn rhy isel i'w ddadansoddi.*

**Mae'r duedd archebu munud olaf yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld misoedd i ddod**


4.1 Dengys y siart uchod lefelau defnydd ar gyfer misoedd i ddod fel y maen nhw'n sefyll ar hyn o bryd, ond dywed rhai gweithredwyr bod y duedd gynyddol i archebu funud olaf yn ei gwneud yn anodd rhagweld sut y bydd pethau yn ystod y misoedd hyn.

> *"Mae ein lefel archebion o flaen llaw wedi gostwng ond mae'n duedd gyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, hyd yn oed cyn Covid. Mae pobl naill ai'n archebu eu gwyliau tramor ymhell o flaen llaw neu'n aros i'r funud olaf i archebu gwyliau yn y DU."*
> Llety hunanddarpar, Gogledd

> *"Os fydd yr haf yn parhau fel y gorffennodd y gaeaf ac fel y mae eleni wedi dechrau, byddem wrth ein bodd. Dydyn ni erioed wedi cael cymaint o archebion o flaen llaw."*
> Llety hunanddarpar, Canolbarth

> *"Ddim yn poeni'n ormodol gan ein bod ni'n cael llawer o archebion funud olaf - rydym yn gobeithio am dywydd da"*
> Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Bodlonrwydd â lefelau defnydd




*Gofynnwyd C4 i weithredwyr llety a oedd ar agor ac a roddodd ffigurau defnydd ar gyfer o leiaf un mis yn C3*

### Mae'n ymddangos mai bod yn hanner llawn oedd y pwynt ar gyfer bodlonrwydd

4.2 Roedd tua hanner (46%) o weithredwyr llety yn fodlon â'r lefelau defnydd cyfredol ar gyfer y misoedd i ddod. Ar gyfartaledd, mae'r gweithredwyr hyn ar hyn o bryd tua hanner llawn ar gyfer misoedd Mawrth, Ebrill a Mai. Yn ddelfrydol byddai rhai yn hoffi bod yn brysurach wrth i'r misoedd hyn gyrraedd, ond mae ganddynt ffydd y bydd archebion funud olaf yn ychwanegu at eu lefel ddefnydd.

*“Mae archebion cynnar yn dod i mewn. Mae'n edrych yn addawol. Rydym eisoes wedi derbyn archebion gan gwsmeriaid drachefn ac yn disgwyl i fwy gyrraedd.”*
Maes Carafanau, De-orllewin

4.3 Dywedodd 15% o weithredwyr yr hoffent 'nifer yn sylweddol yn fwy o archebion'. Ar gyfartaledd, mae'r gweithredwyr hyn ar tua 15% yn llawn ar hyn o bryd ar gyfer misoedd Mawrth, Ebrill a Mai. Mae gobaith y bydd tuedd archebion munud olaf yn newid hyn.


*“Rwy'n pryderu'n fawr am yr archebion o flaen llaw eleni. Maen nhw'n edrych yn wael iawn. Fe wnaethom hyd yn oed ostwng ein prisiau i isafu ar yr effaith ond nid yw'r ffigurau yn dda ar hyn o bryd.”*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

### Gwahaniaethau fesul sector

4.4 Busnesau yn y sector hunanddarpar sy'n fwyaf tebygol o fod eisiau mwy o archebion (62% wedi dweud hyn), a busnesau yn y sector meysydd carafanau a gwersylla sy'n fwyaf tebygol o fod yn fodlon â'r defnydd cyfredol wedi'i archebu (63% wedi dweud hyn).

*"Rydym yn fodlon â'n sefyllfa gyfredol"*
Maes carafanau, Gogledd

## Denu mwy o archebion




*Gofynnwyd C5 i weithredwyr llety a atebodd yr hoffent fwy o archebion (C4)*

### Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gwneud rhywbeth

4.5 Os nad yw lefelau defnydd yn ôl y gobaith, mae busnesau fel arfer yn gwneud rhywbeth i geisio newid hynny. Yn fwyaf cyffredin, mae tua dau o bob pump (41%) yn hyrwyddo'r busnes i ddenu cwsmeriaid newydd. Dyma'r prif ateb ym mhob sector a rhanbarth.


*"Rwy'n gobeithio gwneud mwy ar gyfryngau cymdeithasol. Rwyf mewn penbleth am beth i'w wneud i hyrwyddo'r busnes."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Y llynedd fe brofom gwymp sylweddol yn niferoedd cwsmeriaid. Dydw i erioed wedi gwneud llawer o hysbysebu ond yn teimlo bod yn rhaid inni fuddsoddi mewn hysbysebion i agor marchnadoedd newydd."*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Rydym wedi penderfynu cynnig gostyngiad anferth i ddenu unrhyw westeion o gwbl ar gyfer mis Chwefror"*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*"Mae costau byw yn broblem fawr felly rydym wedi gostwng ein prisiau"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Disgwyliadau yn ôl marchnad




*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio. Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl marchnad oherwydd gwahaniaethau yn nifer yr atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol'.*

### Disgwyliadau sefydlog ar gyfer eleni

4.6 Ar y cyfan, ychydig o symudiad a ddisgwylir yn lefelau ymwelwyr o bob un o farchnadoedd Cymru, y DU tu allan i Gymru a thramor o'i gymharu â 2023.

4.7 Pe bai 2023 wedi bod yn flwyddyn dda, gellid bod wedi ystyried y canlyniadau hyn yn gadarnhaol. Serch hynny, gan fod cyfran y busnesau yn adrodd bod eu niferoedd yn is yn 2023 o'i gymharu â 2022 yn gorbwyso'r rhai sy'n adrodd eu bod i fyny, mae'n ymddangos nad yw busnesau yn gyffredinol yn disgwyl dychwelyd i lefelau 2022 eleni. Mae hyn yn dilyn i fyny o'r baromedr blaenorol yn haf 2023, a ddangosodd lefelau cymysg o hyder wrth symud ymlaen.

4.8 O'i gyfuno ag ymatebion i ffactorau cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar fusnes (a drafodir yn ddiweddarach o dan C8 - C10), mae'n ymddangos bod llawer o weithredwyr yn ystyried 2024 yn flwyddyn i oroesi yn hytrach na ffynnu.

*"Gobeithiwn y bydd eleni yn weddol debyg i'r llynedd... rydym yn gobeithio am hinsawdd well"*
Hostel, Gogledd

*"Mae'n ddyddiau cynnar iawn. Ni fyddwn yn dweud fy mod yn 100% hyderus ond hefyd dydw i ddim yn rhy bryderus. Mae'n debyg mai un o'r blynyddoedd hynny yw hi. Mae gan bobl lai o arian ond mae'n debyg y byddan nhw'n dal eisiau mynd ar wyliau, efallai gwyliau byrrach, ond mae hynny'n iawn."*
Hostel, De-ddwyrain

*"Mae'n edrych yn addawol ar gyfer eleni. Mae gan ein cwsmeriaid ddiddordeb mewn beicio, cerdded, gweithgareddau awyr agored. Rydym wedi ein lleoli yn berffaith ar gyfer hynny."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

### Gwahaniaethau fesul sector


4.9 Yn gyffredinol mae gweithredwyr nad ydynt yn llety yn fwy cadarnhaol am y flwyddyn i ddod, yn enwedig gweithredwyr gweithgaredd, lle mae 44% yn disgwyl i farchnad y DU (y tu allan i Gymru) godi, o'i gymharu â 17% sy'n disgwyl gostyngiad.

*"Mae Eryri yn boblogaidd iawn ymhlith twristiaid rhyngwladol. Mae'n rhan o'u taith gyfan o'r DU. Rydym hefyd yn sylwi ar niferoedd cynyddol o bobl o ddinasoedd mawrion fel Llundain sydd wedi darganfod cerdded a mynydda yn ystod y pandemig ac sydd bellach yn crwydro ein hardal ac yn ehangu eu sgiliau heicio ac yn cysylltu â natur. Mae'n dda iddynt ac yn dda i ni fel busnes."*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

4.10 Gweithredwyr hunanddarpar yw'r lleiaf cadarnhaol. Mae 18% yn disgwyl i farchnad y DU (y tu allan i Gymru) godi, ond mae 29% yn disgwyl iddo ostwng.

*"Os na fydd pethau yn gwella, y posibilrwydd yw y byddwn yn cau"*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

## Hyder wrth redeg yn broffidiol




### Lefelau rhesymol o hyder er gwaethaf heriau costau

4.11 Dywed tua dau draean (64%) o weithredwyr eu bod yn hyderus wrth redeg y busnes yn broffidiol eleni. Mae hyn er gwaethaf rhai heriau cost sylweddol a drafodir yn nes ymlaen o dan C9 a C10.

4.12 Mae lefelau hyder yn debyg iawn i'r amser hwn y llynedd, pan ym maromedr Chwefror 2023 roedd 17% yn 'hyderus iawn' a 50% yn 'weddol hyderus'.

4.13 Mae'r rheini sy'n teimlo'n hyderus am redeg yn broffidiol eleni yn y mwyafrif ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Yn ôl sector, mae'r gyfran sy'n adrodd eu bod yn hyderus ar ei uchaf


ymhlith y gweithredwyr gweithgaredd (78%) a meysydd carafanau a gwersylla (75%), a'r isaf ymhlith llety hunanddarpar (54%).

*"Mae popeth yn edrych yn gadarnhaol ar ein cyfer ni eleni"*
Maes carafanau, Gogledd

*"Mae'r holl wyliau ysgol yn llawn yn barod"*
Maes Carafanau, De-orllewin

*"Mae gennym lawer o ymwelwyr dydd neu arhosiad byr yn ein hardal. Gyda llawer o bobl ddim yn gallu fforddio pecyn gwyliau llawn sy'n cynnwys llety, ond eisiau diwrnod allan, rydym yn gweld y niferoedd yn codi. Gobeithio hyd yn oed yn fwy eleni."*
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

## Rhesymau i fod yn gadarnhaol




### Llond llaw o resymau i fod yn gadarnhaol

4.14 Mae cael lefel uchel o gwsmeriaid drachefn yn cadw rhai gweithredwyr yn teimlo'n optimistaidd eleni.

*"Rydym yn weddol hyderus oherwydd bod gennym swm da o gwsmeriaid drachefn"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

4.15 Mae rhai gweithredwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros bethau eu hunain gyda marchnata helaeth.

*"Rydym yn bwriadu rhedeg hysbysebion teledu, sy'n gyffrous iawn"*
Maes carafanau, Canolbarth

*"Rydym wedi cyflwyno tocynnau tymhorol ac wedi creu partneriaethau gyda chwpwl o hyfforddwyr llawrydd eraill. Mae'r nifer sydd wedi prynu tocynnau tymor yn dda. Gydag ychydig o lwc o ran y tywydd, rydym mewn sefyllfa dda."*
Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

**Gwella'r ddarpariaeth - yn fwy cyffredin ymhlith atyniadau**

4.16 Dywed tri o bob deg (30%) bod 'gwella cynnyrch / darpariaeth' yn rheswm penodol i fod yn gadarnhaol eleni - y prif ateb yn y sector hwn.

*"Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ymwelwyr i'n cyfleuster newydd... gallwn gynnal digwyddiadau a chynadleddau, sy'n golygu cyfle i amrywio ffrydiau ariannu"*
Atyniad, Canolbarth Cymru

*"Rydym wedi cyflwyno antur newydd sydd wedi tynnu twf o gwsmeriaid tramor. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer y flwyddyn i ddod."*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd


*"Rydym wedi buddsoddi mewn podiau glampio newydd ac wedi uwchraddio ein cyfleusterau. Mae'n rhaid iddo dalu ar ei ganfed."*
Maes Carafanau, De-orllewin

**'Nid oes unrhyw beth i fod yn gadarnhaol yn ei gylch'**

4.17 Er bod rhesymau wedi'u rhoi dros bositifrwydd, mae optimistiaeth diwydiant wedi'i phylu gyda thua traean (32%) o weithredwyr yn ateb *'nid oes unrhyw beth i fod yn gadarnhaol yn ei gylch'*. Mae'r cyfan yn uwch ymhlith llety hunanddarparu (41%), ac yn ôl rhanbarth, yng Ngogledd Cymru (39%).

*"Os bydd y cyfraddau busnes yn codi ymhellach a'r prisiau tanwydd hefyd, mae'n rhatach cau'r busnes, ac rydym yn ystyried hynny'n gryf. Mae hynny'n drist iawn gan ein bod wedi gwneud hyn ers sawl blwyddyn."*
Llety hunanddarpar, Gogledd


## Rhesymau i fod yn bryderus




### Costau uchel

4.18 'Costau gweithredu uchel' a 'pholisïau Llywodraeth Cymru' yw'r ddau bryder a grybwyllir amlaf. Roedd y pryderon hyn, ynghyd â 'phobl â diffyg incwm gwario', hefyd ymhlith yr uchaf pan ofynnwyd cwestiwn tebyg ym maromedr Mai 2023.

4.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd fwy nac un pryder pa un fyddai'n effeithio ar eu busnes fwyaf. O'i symleiddio i un, polisïau Llywodraeth Cymru yw'r un pryder mwyaf yn gyffredinol, a ddangosir ar y siart isod:




*Gofynnwyd C10 i'r rheini a oedd yn rhoi mwy nac un ateb i C9. Dengys y siart uchod ganlyniadau cyfun C9 (y rheini a roddodd un ateb) a C10 (y rheini sy'n tynnu sylw at un o'u hatebion lluosog i C9).*

**Rhaniad fesul sector mewn atebion**

4.20 'Polisïau Llywodraeth Cymru' yw'r ateb uchaf ymhlith y gweithredwyr hunanddarpar (56%) - llawer yn uwch na'r ail ateb amlaf ('diffyg incwm gwario gan bobl - 15%). Mae llawer o weithredwyr hunanddarpar yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r hyn y maen nhw'n ei gyfrannu i'r economi ac yn gweithio yn eu herbyn. Serch hynny, mae ychydig o weithredwyr sy'n anghytuno â'r farn honno.

*"Mae twristiaeth Sir Benfro yn hanfodol i'r economi felly dydw i ddim yn deall pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau a chwsmeriaid gyda pholisïau fel y rheol 182 diwrnod a'r dreth dwristiaid."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn sicr yn destun dyddiol ond nid yw mor ddramatig ag y mae rhai papurau newydd yn ein harwain i gredu."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*“Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw ffafrau â'n diwydiant. Nid yw'n teimlo eu bod yn ein cefnogi ni nac eisiau twristiaeth.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

4.21 Serch hynny, mae'n ymddangos bod rhaniad yn y sector, oherwydd ar draws y sectorau eraill gyda'i gilydd, mae 16% wedi ateb 'polisïau Llywodraeth Cymru', ond mae 'costau gweithredu uwch' (33%) yn llawer yn fwy o bryder.

*“Mae eleni yn mynd i fod yn flwyddyn anodd iawn. Rydym wedi defnyddio ein cronfeydd wrth gefn; mae costau wedi mynd dros ben llestri.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Rheol '182 diwrnod'**

4.22 Y rheol defnydd '182 diwrnod' yn ymwneud â chymwyso ar gyfer cyfraddau annomestig yw'r prif reswm y mae 'polisïau Llywodraeth Cymru' o bryder sylweddol i weithredwyr hunanddarpar ond yn llai o bryder i sectorau eraill.

*“Mae'n mynd i fod yn flwyddyn anodd ac rwy'n siŵr na fydd llawer o weithredwyr yn bodloni'r 182 diwrnod. Mae'n mynd i fod yn anodd cael llety gwyliau.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Rydym ni wir yn bryderus am y ddeddfwriaeth 182 diwrnod. Mae niferoedd y cwsmeriaid ar i lawr yn sylweddol, sy'n golygu bod gennym fwy o ddyddiau gwag. Ni allwn estyn ein dyddiau agor, ac felly mewn gwir berygl o fethu â bwrw'r targed.”*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

**20 milltir yr awr**

4.23 Dywed rhai gweithredwyr eu bod yn colli busnes oherwyd bod cwsmeriaid yn pryderu am y terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr a gyflwynwyd yn ddiweddar ar draws nifer o ffyrdd yng Nghymru a oedd â therfyn o 30 milltir yr awr yn flaenorol. Mae'n debyg bod rhai ymwelwyr posibl o Loegr yn pryderu y byddant yn cael eu dal yn goryrru. Mae pobl yn gyndyn o yrru ar y cyflymder hwn a hefyd peth diffyg dealltwriaeth am nifer y ffyrdd sydd wedi'u heffeithio gan y terfyn o 20 milltir yr awr (h.y. nid pob un ohonynt).

*“Mae'r terfyn cyflymder 20 milltir yr awr yn fater newydd. Ni ddaw cryn dipyn o gwsmeriaid i Gymru gan eu bod yn ofni dirwyon goryrru, yn ôl y sylwadau trwy ein gwefan”*
Atyniad, De-ddwyrain

*"Rydym wedi derbyn sylwadau am y terfyn 20 milltir yr awr ac mae pobl wedi canslo oherwydd na allant weld y pwynt gan na fyddant yn gallu gweld Cymru gyfan os mai dim ond 20 milltir yr awr y maen nhw'n ei yrru."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*“Pe bai pobl ond yn gallu deall nad yw 20 milltir yr awr ym mhobman ac y gallwch chi ddod atom heb hyd yn oed sylw at derfynau o 20 milltir yr awr. Mae pobl yn ofni heb reswm.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae pobl yn gyndyn i archebu yng Nghymru oherwydd nid ydynt yn deall sut mae'r terfynau cyflymder yn gweithio."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth


**Costau gweithredu uchel a diffyg incwm gwario**

4.24 'Costau gweithredu uchel' yw'r prif bryder ym mhob sector ar wahân i hunanddarpar. Mae 'pobl â diffyg incwm gwario' (y trydydd pryder uchaf) yn gysylltiedig â'r hyn ar lefel macro-economaidd gan fod y ddwy broblem wedi'u hachosi gan bwysau chwyddiannol. Maent hefyd yn gysylltiedig o ran busnesau yn ceisio lliniaru ar y broblem gan ei bod hi'n anodd codi prisiau i dalu costau os na all cwsmeriaid fforddio talu mwy.

*"Mae'r gorbenion yn uchel ond nid yw pobl eisiau talu'r prisiau ychwanegol ar gyfer y gwyliau"*
Maes carafanau, Gogledd

*“Rydym yn boddi mewn costau ... rydym wirioneddol yn ei chael hi'n anodd, ond mae hynny'n wir am ein cwsmeriaid ffyddlon hefyd. Rydym hyd yn oed wedi cael galwadau ffôn gan gwsmeriaid yr ydym yn eu hadnabod o'u plentyndod a ffoniodd i ymddiheuro a rhoi gwybod y bydden nhw wrth eu bodd yn aros gyda ni ond na allan nhw ei fforddio.”*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

## Isafu ar effaith pryderon




*Gofynnwyd C11 i'r rheini a fynegodd unrhyw bryder yn C9/10*

### Mae rhai gweithredwyr yn ceisio mynd i'r afael â'r materion

4.25 Mae sawl ffordd y mae busnesau yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu, ac mae'n amrywio yn ôl yr hyn yw'r her fwyaf sylweddol. Ymhlith y rhai a oedd yn pryderu fwyaf am gostau gweithredu uchel, roedd 22% yn 'gostwng gorbenion nad ydynt yn gysylltiedig â staff', 13% yn 'hyrwyddo'r busnes i ddenu cwsmeriaid newydd', 13% yn 'codi prisiau' a 13% yn 'cadw'r prisiau neu'n rhoi cynigion arbennig'. Mae'r mwyafrif (70%) yn ceisio gwneud rhywbeth.

*"Er mwyn gostwng costau gweithredu uchel, rydym yn ceisio peidio â gwastraffu unrhyw beth ac yn ceisio ailddefnyddio'r bwyd"*
Bwyty, Gogledd

*"Rydym yn ceisio cadw'r costau ynni i lawr trwy edrych ar baneli solar, bylbiau LED a falfiau thermostatig"*
Llety hunanddarpar, Gogledd


*"Rydym yn ymdrechu i farchnata ar gyfryngau cymdeithasol ac yn gwneud cynigion arbennig"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

4.26 Os mai 'Polisïau Llywodraeth Cymru' yw'r prif bryder, ni fydd tua hanner (49%) yn gwneud unrhyw beth. Mae synnwyr o ddiymadferthedd ymhlith gweithredwyr na allant wneud unrhyw beth i isafu ar effaith y polisïau sy'n anffafriol iddynt.

*“Yn lle buddsoddi arian yn yr un diwyddiant y gall Cymru fod yn dda ynddi, mae Llywodraeth Cymru yn taflu ffyn a cherrig atom. Does dim hwyl ragor.”*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

## 5. Defnydd o'r Gymraeg gan Staff

### Siarad y Gymraeg a'i defnyddio




**Amrywiad sylweddol yn ôl rhanbarth**

5.1 Mae gan ddau ym mhob pum busnes (40%) o leiaf un person yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y gwaith. Mae'r gyfran hon yn llawer uwch yng Ngogledd Cymru (60%) a Chanolbarth Cymru (40%) nac yn Ne-orllewin Cymru (26%) a De-ddwyrain Cymru (21%).

5.2 O ran siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, mae gan 66% o fusnesau yng Ngogledd Cymru o leiaf un person felly, o'i gymharu â 54% yng Nghanolbarth Cymru, a 46% yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Cymru.

*"Mae defnydd o'r Gymraeg yn doreithiog, gyda llawer o siaradwyr iaith gyntaf, ac anogir y rheini nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt i'w defnyddio neu ymgymryd â chyrsiau"*
Atyniad, Gogledd

*"Mae gennym tua thri o bobl yma sy'n siarad Cymraeg ac rwy'n eu hannog i'w defnyddio gyda chwsmeriaid os ydynt eisiau"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

**Nid yw rhai siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith**

5.3 Lle mae 'holl' neu'r 'rhan fwyaf' o staff yn siaradwyr iaith gyntaf, fel arfer (o fewn 97% o'r busnesau hynny) mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gwaith o ddydd i ddydd.


5.4 Serch hynny, gyda thua hanner (51%) o fusnesau lle'r oedd 'rhai' aelodau o staff yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, nid oedd yr un ohonynt yn ei defnyddio yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

5.5 Mae'n werth nodi hefyd yn 11% o fusnesau lle nad yw unrhyw aelod o staff yn siarad Cymraeg iaith gyntaf, mae o leiaf un person yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mewn rhai achosion mae staff yn ceisio dysgu Cymraeg neu ddysgu ychydig eiriau i gwsmeriaid:

*"Dim ond un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Ei swydd e yw croesawu'r plant ysgol [fel arfer o Lundain] gyda chwpwl o eiriau Cymraeg. Mae pawb ar eu hennill: hyrwyddo'r Gymraeg a phlant balch wedi 'dysgu iaith newydd'"*
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

*"Mae pawb yn garedig ac yn hoffi fy mod yn ceisio dysgu Cymraeg"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

## Rhwystrau at ehangu staff cyfrwng Cymraeg a'i defnydd




### Nid oedd llawer yn canfod rhwystrau i'w goresgyn

5.6 Nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau yn canfod eu bod yn wynebu rhwystr i ehangu gallu a defnydd y Gymraeg - naill ai gan eu bod yn gallu bodloni'r angen yn rhwydd yn barod, neu nad ydynt yn gweld bod angen.

5.7 Mae gan Ogledd Cymru gyfan uwch (54%) o fusnesau yn ateb eu bod yn gallu bodloni'r galw am siarad Cymraeg yn hawdd (sydd i'w gymharu â 38% ar draws gweddill Cymru). Mae gan Dde Cymru gyfan uwch (41%) o fusnesau yn ateb nad ydynt yn ystyried bod siarad Cymraeg yn berthnasol i'w busnes (o'i gymharu â 31% yng Nghanolbarth Cymru a 21% yng Ngogledd Cymru).

*"Rydym yn fusnes teuluol cyfrwng Saesneg"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Rydym wedi bod yma ers 24 o flynyddoedd ac mae pawb yn yr ardal wedi bod yn groesawgar iawn ac nid ydym erioed wedi gweld bod methu siarad Cymraeg yn rhwystr"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

5.8 Mae'r ddau rwystr a nodir fwyaf - 'ddiffyg cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg' a 'diffyg siaradwyr Cymraeg yn ein hardal' - yn fwy perthnasol i Dde Cymru (a nodir gan 11% a 12% o ymatebwyr yn y drefn honno).

*"Rydym yn edrych i wthio defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'i chynrychiolaeth, er mai ychydig o siaradwyr Cymraeg sydd yn ein hardal ac ychydig o gwsmeriaid cyfrwng Cymraeg."*
Atyniad, De-ddwyrain

*"Nid oes llawer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn fy ardal - dim ond un person yn y pentref - felly does neb i siarad â nhw, yn enwedig pan nad yw'r rhan fwyaf o fy ngwsmeriaid o Gymru"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Byddem wrth ein bodd yn cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg ond nid ydynt yn ymgeisio"*
Maes carafanau, Gogledd

5.9 Ymhlith y busnesau sy'n cyflogi o leiaf un siaradwr Cymraeg iaith gyntaf ond nad oes unrhyw staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, roedd 90% o'r farn nad oedd unrhyw rwystrau. Y rhwystr a nodwyd fwyaf ymhlith y grŵp hwn yw 'diffyg cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg' (5%).